# Llyfryn Gwybodaeth Gofal Plant ac Addysg Feithrin

Llyfryn gwybodaeth sy'n cynnwys canllawiau ynglŷn a chynlluniau gofal plant a gwybodaeth am wasanaethau, hyfforddiant a chefnogaeth i aelodau staff.

TEULU GWYNEDD

# Cynnwys


**1.**Dechrau'n Deg

**2.** Gofal Plant 2 oed

**3.** Addysg Feithrin

**4.** Cynnig Gofal Plant Cymru

**5&6**. Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADYaCh)

**7.** Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

a Dewis Cymru

**8.** Hyfforddiant

**9.** Grantiau

**10**. Cysylltiadau

# Dechrau'n Deg

Mae **Dechrau'n Deg** yn cynnig cymorth a chyfleoedd i deuluoedd sydd gyda phlant dan 4 oed sy'n byw mewn cymunedau penodol o Wynedd. Mae Dechrau'n Deg yn cynnig cymorth i rieni wrth i'w plant dyfu a datblygu.

Mae'n rhaid i'r ddarpariaeth fod o fewn ardal benodol lle mae Dechrau'n Deg yn cael ei gynnig. Drwy arwyddo cytundeb Dechrau'n Deg byddwch yn cytuno i gyd- weithio gydag Athrawes Ymgynghorol Blynyddoedd Cynnar.

I rieni dderbyn cefnogaeth a gofal plant Dechrau'n Deg bydd rhaid llenwi ffurflen gais gyda'u hymwelydd Iechyd. Yna bydd aelod o'r Tîm Gofal Plant yn cysylltu â'r ddarpariaeth i weld a oes lle i'r plentyn fynychu. Bydd y ddarpariaeth wedyn yn cysylltu gyda'r rhiant i drefnu dyddiad cychwyn i'r plentyn.

Cynigir hyd at 12.5 awr o ofal plant wedi'i rannu dros 5 diwrnod, sef 5 sesiwn bore neu brynhawn. Adroddir ar bresenoldeb y plant yn fisol drwy ddefnyddio ffurflen monitro.

| **Os yw'r plentyn yn troi'n 2 oed rhwng......** | **Gall plentyn ddechrau gofal plant Dechrau'n Deg.....** |
|---|---|
| 1 Medi - 31 Rhagfyr | Dechrau'r tymor ar neu ar ôl 1 Ionawr |
| 1 Ionawr - 31 Mawrth | Dechrau'r tymor ar neu ar ôl 1 Ebrill |
| 1 Ebrill - 31 Awst | Dechrau'r tymor ar neu ar ôl 1 Medi |

Bydd gwybodaeth am sut y byddwch yn hawlio oriau plant yn cael ei drafod gyda chi unwaith byddwch wedi cofrestru fel darpariaeth Dechrau'n Deg.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch **â dechraundeg@gwynedd.llyw.cymru**

# Gofal Plant 2 oed

Gall teuluoedd sydd yn byw o fewn codau post penodol dderbyn hyd at 12.5 awr o Ofal Plant am ddim y tymor ar ôl i'r plentyn gael ei ben-blwydd yn 2 oed. Bydd y 12.5 awr o ofal yn cael ei gynnig dros 5 diwrnod, sef unai 5 sesiwn bore neu prynhawn.

| **Os yw'r plentyn yn troi'n 2 oed rhwng......** | **Gall plentyn ddechrau ar y Gofal Plant 2 oed.....** |
|---|---|
| 1 Medi - 31 Rhagfyr | Dechrau'r tymor ar neu ar ôl 1 Ionawr |
| 1 Ionawr - 31 Mawrth | Dechrau'r tymor ar neu ar ôl 1 Ebrill |
| 1 Ebrill - 31 Awst | Dechrau'r tymor ar neu ar ôl 1 Medi |

Er mwyn cynnig y cynllun Gofal Plant 2 oed, mae'n rhaid i ddarpariaeth **fod ar restr darparwyr gofal plant cymeradwy Cyngor Gwynedd** ac o fewn **ardal benodol** lle mae'r cynllun Gofal Plant 2 oed yn cael ei gynnig.
Mae hefyd yn ofynnol i'r darparwr gyd-weithio gydag Athrawes Ymgynghorol Blynyddoedd Cynnar cyn derbyn, ac arwyddo cytundeb, darparu Gofal Plant 2 oed.

Bydd ceisiadau rhieni yn cael eu hasesu gan y Tim Gofal Plant, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu gyda'r darparwr o ddewis i wirio os oes sesiynau ar gael, cyn cadarnhau gyda'r rhiant. Unwaith mae rhiant wedi derbyn cadarnhad, bydd angen i'r darparwr a'r rhiant gwneud y trefniadau cychwyn gyda'i gilydd.

Bydd gwybodaeth am sut y byddwch yn hawlio oriau plant yn cael ei drafod gyda chi unwaith byddwch wedi cofrestru fel darpariaeth Gofal Plant 2 oed.
I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch **â gofalplant2oed@gwynedd.llyw.cymru**

# Addysg Feithrin

Mae gan bob plentyn yng Ngwynedd hawl i gael 10 awr yr wythnos o Addysg Feithrin ran-amser y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.
Mae'n bosib rhannu'r 10 awr addysg feithrin fel yr isod:

- **2 awr dros 5 diwrnod, neu;**
- **2.5 awr dros 4 diwrnod.**

| **Os yw'r plentyn yn troi'n 3 oed rhwng......** | **Gall plentyn ddechrau addysg feithrin .....** |
|---|---|
| 1 Medi - 31 Rhagfyr | Dechrau'r tymor ar neu ar ôl 1 Ionawr |
| 1 Ionawr - 31 Mawrth | Dechrau'r tymor ar neu ar ôl 1 Ebrill |
| 1 Ebrill - 31 Awst | Dechrau'r tymor ar neu ar ôl 1 Medi * |

*

**Pwyntiau i'w cofio:**

1. Os yw plentyn yn mynychu dosbarth Meithrin yn yr Ysgol ni all dderbyn ei hawliad Addysg Feithrin yn eich darpariaeth.

2. Mae modd i blentyn rannu ei 10 awr dros ddwy ddarpariaeth. Ond ni all fynychu'r ddwy ddarpariaeth ar yr un diwrnod e.e. bore yn narpariaeth 1 a phrynhawn yn narpariaeth 2.

3. Mae gofyn i rieni gofrestru i dderbyn eu hawliadau Addysg Feithrin gyda chi fel darpariaeth. Mae ffurflen gofrestru benodol ar gael drwy gysylltu â Swyddog Gofal Plant a Chwarae, Uned Gofal Plant ar yr e-bost isod.

4. Mae gofyn i chi rannu gwybodaeth am y plant sydd yn derbyn eu hawliad Addysg Feithrin yn dymhorol gyda'r Uned Gofal Plant. Bydd y Swyddog Gofal Plant a Chwarae yn anfon gwybodaeth atoch chi bob tymor

Mae gwybodaeth am feini prawf darparu addysg feithrin a'r wybodaeth ynghylch y taliadau tymhorol ar gael yn eich cytundeb addysg feithrin.

I gael ragor o wybodaeth cysylltwch â
**gofalplantachwarae@gwynedd.llyw.cymru**

# Cynnig Gofal Plant Cymru

Cynnig Gofal Plant Cymru
Childcare Offer for Wales

**Beth yw'r cynnig?**

Mae Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru yn golygu bod llawer o rieni plant 3 i 4 oed yn gallu cael cymorth gyda chostau gofal plant. Mae hyn yn golygu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant yng Nghymru i rieni sy'n gymwys. Mae'r 30 awr yn cynnwys lleiafswm o 10 awr o addysg gynnar yr wythnos ac uchafswm o 20 awr o ofal plant yr wythnos.

Mae'r Cynnig ar gael am 48 wythnos o'r flwyddyn, sy'n golygu y gall eich helpu gyda chostau gofal plant ar gyfer rhai o wyliau'r ysgol.

**I fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig, mae'n rhaid i bob rhiant**:

- Fyw yng Nghymru
- Bod â phlentyn 3 neu 4 oed
- Ennill llai na £100,000 y flwyddyn
- Bod yn gyflogedig ac ennill o leiaf, ar gyfartaledd, yr hyn sy'n cyfateb i weithio 16 awr yr wythnos ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol
- Neu fod wedi'i gofrestru ar gwrs israddedig, ôl-raddedig neu addysg bellach sy'n para 10 wythnos o leiaf

Bydd y Cynnig ar gael y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed (gweler y tabl isod) nes y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed, a'u bod yn cael cynnig lleoliad addysg llawn amser mewn ysgol.

| **Os yw'r plentyn yn troi'n 3 oed rhwng......** | **Gall plentyn ddechrau ar y cynnig gofal plant.....** |
|---|---|
| 1 Medi - 31 Rhagfyr | Dechrau'r tymor ar neu ar ôl 1 Ionawr |
| 1 Ionawr - 31 Mawrth | Dechrau'r tymor ar neu ar ôl 1 Ebrill |
| 1 Ebrill - 31 Awst | Dechrau'r tymor ar neu ar ôl 1 Medi |

Ers Ionawr 2022 mae'r Cynnig Gofal Plant wedi cael ei drosglwyddo ar-lein, dyma'r linc ar gyfer cofrestru ar holl wybodaeth ynglŷn â sut byddwch yn cwblhau eich hawliadau ariannol. I gael ragor o wybodaeth cysylltwch â **cynniggofalplant@gwynedd.llyw.cymru**

# Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (ADYaCh)

**Er mwyn sicrhau bod y wybodaeth diweddara gennych ynghylch y Ddeddf ADY, dilynwch y camau isod.**

**1.** Lawrlwytho copi o'r ddogfen 'Map Darpariaeth' oddi ar wefan ADYaCh
Map Darpariaeth (google.com)

**2.** Ewch ati i ddod i adnabod a dod yn gyfarwydd â'r wefan ADYaCh, ac yn benodol y rhan 'Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar'. Mae nifer o'r dogfennau y cyfeirir atynt o fewn y ddogfen map darpariaeth uchod ar gael i'w lawrlwytho oddi ar y wefan ADY.

**Cwblhewch y rhaglen hyfforddiant gorfodol canlynol:**

| | |
|---|---|
| **Prosesau a Gweithdrefnau**<br>**I bwy?** Arweinyddion | **Modiwl 1 a 2 :** Prosesau a Gweithdrefnau Map Darpariaeth gan gynnwys ADY<br>• Hyfforddiant wyneb yn wyneb<br>• Cynhelir ym mis Medi ac yn ôl yr angen ar gyfer arweinyddion Newydd neu Arweinydd sydd angen ail ymweld |
| | **Diweddariadau Modiwl 1 a 2:** Diweddariad yn ymwneud a phrosesau a gweithdrefnau Map Darpariaeth gan gynnwys ADY<br>• Hyfforddiant rhithiol blynyddol (Medi) |

# Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (ADYaCh)

**Gwybodaeth gefndirol: datblygiad iaith a dulliau cefnogi**
**I bwy?** Arweinyddion a Gweithwyr Allweddol

**1.** Gwylio fideo hyfforddiant, **'Ga i ymuno â chdi?**

**2.**Cyflawni'r hyfforddiant e-ddysgu - **'Speech and Language, Short Course'**

**Darpariaeth ar gyfer plant ag ADY**
**I bwy?** Gweithwyr Allweddol

**Modiwl 3:** Adnoddau a strategaethau i gefnogi plant ag ADY
Tymhorol: Hyfforddiant wyneb yn wyneb i weithwyr allweddol (rhan o raglen HMS Blynyddoedd Cynnar)

Adnoddau a strategaethau wedi'i deilwra i gefnogi plant â CDU yn eich lleoliad

- **Rheolaidd** (os oes plentyn â CDU yn y lleoliad): Ymweliadau gan Dîm ADY Blynyddoedd Cynnar

I gael ragor o wybodaeth cysylltwch â **GweinyddolADYaCh@gwynedd.llyw.cymru**

# Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a Dewis Cymru

Y **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd** yw'r pwynt cyswllt cyntaf i blant, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol sydd eisiau gwybodaeth, cyngor neu gefnogaeth yn ymwneud â phlant a theuluoedd yng Ngwynedd.

Mae'r gwasanaeth yn darparu'r rhestr gofal plant drwy ddefnyddio cronfa ddata Dewis Cymru. Maent yn cynnig arweiniad i rieni ar ofal plant, gwasanaethau cymorth i dalu am ofal plant, gwasanaethau cefnogol a materion teuluol.

Gallent ymuno a chi yn ystod sesiynau gwybodaeth i deuluoedd gyda stondin neu fe gewch gyfeirio rhieni yn uniongyrchol os yn chwilio am wybodaeth.

Maent yn hapus i geisio helpu ym mhob achos. Rhannir gwybodaeth gyfredol yn ddyddiol ar eu **gwefannau cymdeithasol**, yn ogystal â gwefan swyddogol **Hwb Teuluoedd Gwynedd.**

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â **- ggtgwyneddfis@gwynedd.llyw.cymru**

## Dewis Cymru

Gwefan yw Dewis Cymru sy'n gyfarwyddiadur i wasanaethau ledled y wlad gan gynnwys gofal plant. Defnyddir fel adnodd cronfa ddata i deuluoedd ddarganfod gwasanaethau ac adnoddau ar draws phob sir yng Nghymru.

### Rhestr Gofal Plant

Dylai bod gennych chi i gyd fel darpariaeth gyfri **DEWIS**, er mwyn sicrhau bod eich gwybodaeth i gyd yn gyfredol ar restr Gofal Plant Gwynedd ac er mwyn cael mynediad i restr hyfforddiant.

Mae'n ddyletswydd arnoch fel darpariaeth i sicrhau bod y wybodaeth ar wefan **DEWIS** yn gyfredol drwy gydol yr amser.

# Hyfforddiant

Mae'r Uned Gofal Plant bellach yn defnyddio gwefan **DEWIS** ar gyfer llogi lle ar gyrsiau hyfforddiant.  Os nad oes gennych fanylion mewngofnodi ar gyfer DEWIS byddwn yn gofyn yn garedig i chi sicrhau eich bod yn dilyn y cyfarwyddiadau ar y linc isod.

**Sut mae ychwanegu fy ngwybodaeth i Dewis Cymru?**

Mae'r **Uned Gofal Plan**t yn cynnig nifer o gyrsiau hyfforddiant i ddarparwyr gofal plant yn ystod y flwyddyn. Bydd rhai cyrsiau yn cael eu nodi fel rhai 'hanfodol' e.e. Cymorth Cyntaf a Diogelu Plant. Gellir mynegi diddordeb ar gyfer hyfforddiant unrhyw dro, i weld beth ydi'r drefn o ran cyflwyno cais dilynwch y linc -  **sut i gael mynediad i raglen DEWIS**

Gofynnir i chi gwblhau ffurflen "mynegi diddordeb" ar gyfer pob Hyfforddiant gan **sicrhau bod enw llawn yr aelod/aelodau staff wedi ei nodi'n glir** ac enw a chyfeiriad e-bost y ddarpariaeth.

Taler sylw bod nifer o ddyddiadau gwahanol ar gael i bob cwrs ac mae angen "mynegi diddordeb" ar gyfer bob un yr ydych yn dymuno ei fynychu.

Rydym yn gweithredu ar sail 'cyntaf i'r felin'. Byddwch yn derbyn e-bost gan DEWIS wedi hynny yn cadarnhau a oes lle wedi neilltuo / **NEU** e-bost yn nodi **Nad Oes** a'ch bod ar restr aros.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â **gofalplantachwarae@gwynedd.llyw.cymru**

# Grantiau

Mae nifer o grantiau posib ar gael gan yr Uned Gofal Plant yn ddibynnol ar gyllideb Llywodraeth Cymru. Mae'n hanfodol bwysig bod pob darpariaeth ar ein Rhestr Darparwyr Cymeradwy i dderbyn unrhyw grantiau.

**Grantiau Cychwynnol:**
Grant i ddarpariaethau cofrestredig newydd i brynu adnoddau addas i'r lleoliad.

**Grant Adnoddau:**
Yn unol â'r gyllideb mae swm yn cael ei neilltuo yn flynyddoedd i ddarpariaeth gofrestredig i brynu adnoddau pwrpasol i'r ddarpariaeth.

**Grantiau Cyfalaf:**
Pwrpas y cyllid yw cynnig grant i ddarparwyr gofal plant, gwarchodwyr plant a chanolfannau Dechrau'n Deg i wella eu hadeiladau ar gyfer darparu gwasanaethau gofal plant.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:
**gofalplantachwarae@gwynedd.llyw.cymru**

# Cysylltiadau

- **Dechrau'n Deg:** 01286 678 824
  DechraunDeg@gwynedd.llyw.cymru

- **Gofal Plant 2 oed:** 01248 352436
  gofalplant2oed@gwynedd.llyw.cymru

- **Cynnig Gofal Plant:** 03000 628628
  cynniggofalplant@gwynedd.llyw.cymru

- **ADYaCH:** 01286 679007
  GweinyddolADYaCh@gwynedd.llyw.cymru

- **Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd:**
  01248 352436 / 07976 623816
  GGTGwyneddFIS@gwynedd.llyw.cymru

- **Gofal Plant a Chwarae:** 01286 678 824
  Gofalplantachwarae@gwynedd.llyw.cymru